

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

#### Triniaethau ar gyfer Cyflyrau Niwrogyhyrol The Treatment of Neuromuscular Conditions

**Q12 Jenny Randerson:** Will the First Minister make a statement on the treatment of neuromuscular conditions? OAQ1709(FM)

**C12 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am driniaethau ar gyfer cyflyrau niwrogyhyrol? OAQ1709(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** The treatment of neuromuscular conditions is commissioned by Health Commission Wales when the diseases require referral to specialised neurological services. Local health boards are responsible for commissioning the more localised and general neurological services.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Comisiwn Iechyd Cymru sy'n comisiynu triniaethau ar gyfer cyflyrau niwrogyhyrol pan fydd angen cyfeirio'r claf at wasanaethau niwrolegol arbenigol. Byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu'r gwasanaethau niwrolegol mwy lleol a chyffredinol.

#### Democratiaeth yng Nghymru Democracy in Wales

**Q13 Ann Jones:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's efforts to promote participation in democracy in Wales? OAQ1713(FM)

**C13 Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cymryd rhan mewn democratiaeth yng Nghymru? OAQ1713(FM)

**The First Minister:** The Assembly Government continues to work in partnership with stakeholders to encourage best practice in all aspects of the electoral process. A joint campaign will be undertaken with the Welsh Local Government Association to raise public awareness of the role of members and to encourage new candidates ahead of the 2008 local elections

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i annog arfer gorau ym mhob agwedd ar y broses etholiadol. Cynhelir ymgyrch ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl Aelodau ac i annog ymgeiswyr newydd cyn etholiadau lleol 2008.

#### Myfyrwyr Addysg Uwch Higher Education Students

**Q14 Michael German:** What has the Welsh Assembly Government done to improve

**C14 Michael German:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud

funding for part-time higher education students? OAQ1704(FM)

i wella'r cyllido ar gyfer myfyrwyr addysg uwch rhan amser? OAQ1704(FM)

**The First Minister:** Following the transfer to the Assembly of responsibility for the whole student financial support system from academic year 2006-07, we are now in a position to develop our own policies in this area and are considering the findings of the recently published Graham report on part-time study in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Yn dilyn trosglwyddo i'r Cynulliad gyfrifoldeb dros y system gyfan ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr o'r flwyddyn academaidd 2006-07, yr ydym erbyn hyn mewn sefyllfa i ddatblygu ein polisiau ein hunain yn y maes hwn, ac yr ydym yn ystyried canfyddiadau adroddiad Graham a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar astudio yn rhan amser yng Nghymru.

### **Dyfodol y Gwasanaethau Post The Future of Postal Services**

**Q15 Helen Mary Jones:** When will the First Minister next meet with UK Ministers to discuss the future of postal services in Wales? OAQ1694(FM)

**C15 Helen Mary Jones:** Pa bryd y bydd y Prif Weinidog yn cyfarfod â Gweinidogion y DU nesaf i drafod dyfodol gwasanaethau post yng Nghymru? OAQ1696(FM)

**The First Minister:** While I have no such plans, the Minister for Social Justice and Regeneration is involved in ongoing discussions with Government administrations and Post Office Ltd about the future of postal services in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Er nad oes gennyf gynlluniau o'r fath, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wrthi'n cynnal trafodaethau gyda gweinyddiaethau'r Llywodraeth a Swyddfa'r Post Cyf. am ddyfodol y gwasanaethau post yng Nghymru.